

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**Bydd cyfarfod o'r Cabinet yn cael ei gynnal ym Mhencadlys y
Cyngor, Y Pafiliynau, Cwm Clydach (Siambr y Cyngor)**

BRYNHAWN IAU 23^{ain} GORFFENNAF, 2015 am 2.30.

Dolen gyswllt: Mrs Emma Wilkins (Rhif ffôn: 01443 424062)

Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn 5pm ar 21 Gorffennaf 2015. Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y cynghorydd yngŵn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, ffoniwch Swyddfa'r Cabinet ar 01443-424062 neu anfonwch e-bost i Cabinet@rctcbc.gov.uk

RHESTR O'R PYNCIAU I'W TRAFOD

Datganiad Buddiant:

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Gynghorwyr, yn unol â gofynion Côd Ymddygiad y Cyngor.

Noder:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

1. GRANT DATBLYGU GWEITHLU GOFAL CYMDEITHASOL 2015-16

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Cabinet am Grant Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol.

2. ADRODDIAD BLYNYDDOL AR STRATEGAETH GWYBODAETH AC YMGYNGHORI CYNHALWYR (GOFALWYR) CWM TAF

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant gan gyflwyno'r adroddiad blynyddol ar hynt Strategaeth Gwybodaeth ac Ymgynghori Cynhalwyr Rhanbarth Cwm Taf yn barod ar gyfer ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Tudalennau 57 - 104

3. DEDDF RHEOLEIDDIO PWERAU YMCHWILIO, 2000 – DEFNYDD O RIPA YN 2014/15 GAN GYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol, sy'n rhoi cyfle i'r Cynghorwyr adolygu defnydd y Cyngor o Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (RIPA) yn ystod 2014/15 a sefydlu'r ddau bolisi corfforaethol mewn perthynas â'r defnydd o'r ddeddf yn ystod 2015/16.

Tudalennau 105 - 222

4. ARDOLL SEILWAITH CYMUNEDOL (CIL) – RHESTR RHEOLIAD 123 – ARGYMHELLION Y PWYLLGOR CRAFFU

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol sy'n gofyn am sêl bendith yr Aelodau ynghylch y broses arfaethedig o ddelio â Rhestr Rheoliad 123, yn dilyn cymeradwyaeth y Pwyllgor Craffu – Cyllid a Chyflawniad.

Tudalennau 223 - 230

5. RHEOLIADAU ARDOLL SEILWAITH CYMUNEDOL – RHESTR RHEOLIAD 123

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Materion Cynllunio ac Adfywio sy'n ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i newid Rhestr Rheoliad 123 Ardoll Seilwaith Cymunedol.

Tudalennau 231 - 240

6. DATBLYGIAD O ARWYDDOCÂD CENEDLAETHOL: YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Materion Cynllunio ac Adfywio sy'n rhoi gwybodaeth i'r Cabinet am ddogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru a gafodd ei chyflwyno'n ddiweddar o'r enw Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol.

Tudalennau 241 - 264

7. DATBLYGU A GWEITHREDU RHAGLEN GYMORTH I FENTRAU NEWYDD

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Materion Cynllunio ac Adfywio sy'n amlinellu'r newidiadau arfaethedig i'r rhaglenni cymorth grant presennol a'r Rhaglen Cymorth Menter o hyn allan.

Tudalennau 265 - 268

8. ADRODDIAD AR ASESIAD DIGONOLRWYDD GOFAL PLANT: Y DIWEDDARAF

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes gan ddarparu i Aelodau yr Adroddiad drafft diweddaraf ar Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2015 ar gyfer Rhondda Cynon Taf.

Tudalennau 269 - 432

9. RHAGLEN WAITH Y CABINET

Derbyn adroddiad yr Ysgrifennydd i'r Cabinet sy'n amlinellu Rhaglen Waith y Cabinet ar gyfer cyfnod o dri mis - Awst, Medi, ac Hydref 2015.

Tudalennau 433 - 438

10. ADRODDIAD CYFLAWNIAD Y CYNGOR AM Y PEDWERYDD CHWARTER – 31 MAWRTH 2015

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Gwasanaethau Rheng-Flaen sy'n rhoi arolwg i Aelodau Services ar gyflawniad y Cyngor o ran materion ariannol a gweithreduar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth, 2015.

Tudalennau 439 - 592

11. Trafod cadarnhau'r cynnig isod yn benderfyniad:

“Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.”

12. DILEU DYLEDION NAD OES MODD EU CASGLU

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Gwasanaethau Rheng Flaen sy'n cynnwys gwybodaeth eithriedig.

Tudalennau 593 - 602

13. Materion brys

Ystyried unrhyw faterion brys y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.

A handwritten signature in black ink, appearing to be 'A. Williams', written in a cursive style.

Cyfarwyddwr Gwasanaeth ac Ysgrifennydd i'r Cabinet